Cyngor Sir Ddinbych
Cyngor Ymgynghorol Sefydlog Addysg Grefyddol
(CYSAG)

Dyddiad y Cyfarfod:		**13 Chwefror 2017**
Eitem ar y Rhaglen:	**5**	**Dadansoddiad o Adroddiadau Arolygu**

Cefndir yr Adroddiad:

Mae'n ddyletswydd statudol ar CYSAG i fonitro darpariaeth Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd mewn ysgolion. Mae ganddyn nhw draddodiad hir o dderbyn a dadansoddi adroddiadau arolygon Estyn ym mhob cyfarfod.

Pwrpas yr Adroddiad:

Rhoi gwybod i aelodau am ganlyniadau Adroddiadau Arolygon diweddar Estyn ar ysgolion.

Argymhellion:

- Derbyn yr adroddiad
- Anfon llythyr i bob ysgol i roi gwybod iddyn nhw bod adroddiad o'u harolwg wedi ei ystyried, i'w llongyfarch am yr elfennau da a nodwyd, ac i'w hatgoffa bod yr Uwch Ymgynghorydd Dysgu Addysg Grefyddol a'r Swyddogion Gwella Ysgolion ar gael i gynorthwyo gydag unrhyw faes sydd angen ei ddatblygu neu unrhyw fater sydd angen mynd i'r afael ag o.
- Gofyn i'r Awdurdod Lleol ddosbarthu'r llythyrau i'r ysgolion perthnasol.